| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **12 MAI 2011** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **CYNLLUN LWFANS AELODAU** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **DELIO AG ADRODDIAD ATODOL Y PANEL CYDNABYDDIAETH ANNIBYNNOL** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL (CYLLID)/<br>CYFARWYDDWR GWASANAETH CYFREITHIOL A SWYDDOG MONITRO** |
| **GWEITHREDU:** | **DIWYGIO'R CYNLLUN LWFANSAU** |

Yn dilyn apwyntiad y Comisiynwyr ar 16 Mawrth, fe ysgrifennodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol i Banel Gydnabyddiaeth Annibynnol Cymru i ofyn iddynt gynnal adolygiad o lwfansau ym Môn (Atodiad A). Fe adroddodd y Panel yn ôl ar 13 Ebrill (Atodiad B). Fel bob amser, rôl y Panel yw penderfynu ar y lwfans uchaf, ac ni chaiff yr awdurdod fynd yn uwch na'r uchafswm hwnnw.

Mae'r adroddiad yn gostwng y lwfans sylfaenol uchaf i Gyngor Sir Ynys Môn i £11,664 sef yr union swm a benderfynwyd gan y Cyngor am 2011-12 yn dilyn toriad o 10%. Nid oes angen unrhyw newid.

Mae'r adroddiad yn gostwng y lwfans uchaf 'Band 3' i £7,474. Hwn yw'r band sy'n berthnasol i Gadeiryddion y Pwyllgorau Sgriwtini, y Pwyllgor Cynllunio a'r Pwyllgor Archwilio ac fe benderfynodd y Cyngor ar £7,473 am 2011-12. Nid oes angen unrhyw newid.

Mae Lwfansau Cyfrifoldeb Arbennig i'r Arweinydd, y Dirprwy Arweinydd, aelodau'r Pwyllgor Gwaith ac Arweinydd yr Wrthblaid wedi'u gostwng i sero. Mae angen newid y cynllun o'r herwydd.

Mae penderfyniadau'r Panel Cydnabyddiaeth Annibynnol yn dod i rym o ddyddiad ei adroddiad h.y. 13 Ebrill. O dan Reoliad 6 o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau) (Cymru) 2007, fe all y Cyngor ôl ddyddio'r newid o fewn y flwyddyn ariannol ond dim i flwyddyn ariannol flaenorol. Yn ymarferol ni chafodd y lwfansau hyn eu talu am y cyfan o fis Ebrill, ac fe rybuddiwyd yr aelodau penodol ymlaen llaw o'r bwriad.

Argymhellir bod Cynllun Lwfansau'r Aelodau'n cael ei ddiwygio trwy leihau'r Lwfansau Cyfrifoldeb Arbennig i'r Arweinydd, y Dirprwy Arweinydd, y Pwyllgor Gwaith ac Arweinydd yr Wrthblaid i sero i fod yn weithredol o 1 Ebrill, 2011.

**DAVID ELIS-WILLIAMS**
**CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL (CYLLID) &**
**LYNN BALL**
**CYFARWYDDWR GWASANAETH CYFREITHIOL**
**A SWYDDOG MONITRO**

**19 EBRILL 2011**